# CYNGOR TREF LLANGEFNI

**COFNODION** Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 9fed o Fawrth 2026** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

**YN BRESENNOL :**
**Cyng. J. Egryn Lewis - Cadeirydd**

| | |
|---|---|
| Cyng. Margaret A. Thomas | Cyng. Terry Jones |
| Cyng. J. Huw Owen | Cyng. Henry Jones |
| Cyng. Geraint Bebb | Cyng. Alwyn Parry |
| Cyng. Non W. Parry | |

**HEFYD YN BRESENNOL :**
Ms. Linda Powell — Swyddog Gweinyddol
**Cynghorydd Sir :**
Cyng. Nicola Roberts
Cyng. Geraint Bebb
**Heddlu :** PC Lisa Thomas
**Cyfarfod yn cael ei Recordio**

*Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod Llawn*

**25/248** **Ymddiheuriadau :** Cyng. Arwel Môn Hughes, Cyng. Non Roberts-Smith
**Cynghorydd Sir :** Cyng. Dylan W. Rees, Cyng. Non Dafydd.

**25/249** **Datganiad o Ddiddordeb : Dim**

**25/250** **Heddlu Gogledd Cymru :**

**1** **Cyng. Non W. Parry :** Adroddodd Cyng. Parry am y digwyddiadau diweddar canlynol o amgylch y dref :

- Difrod i Feinciau;
- Aflonyddwch yn Stryd y Cae gyda phobl ifanc yn cicio biniau o gwmpas;
- Perchnogion Siopau yn pryderu am blanhigion wedi'u dwyn a difrod i'w Potiau Blodau;
- Planhigion wedi'u dwyn o'r Potiau Blodau ger Neuadd y Dref.

Bydd y Cyngor Tref yn adrodd ar y digwyddiadau uchod yn ffurfiol i'r Heddlu, trwy gysylltu â llinell 101, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi'n briodol. Cadeirydd yn awgrymu dylid cysylltu â'r Heddlu ar lefel uwch er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn sydd yn digwydd ar Ynys Môn. **PENDERFYNWYD** derbyn yr uchod ac adrodd yn ffurfiol i'r Heddlu.

**2** **PC Lisa Thomas :** Cyflwynodd PC Thomas ei hun a rhoddodd grynodeb o'i gwaith yn ardal Llangefni. Dywedodd fod ymddygiad pobl ifanc yn broblem o gwmpas y dref a bod Grŵp wedi'i sefydlu i asesu'r opsiynau ar gyfer Hwb i'r Ieuenctid yn y dref.
Cyfeiriodd Cyng. Parry sylw'r Swyddog Heddlu at Eitem 25/250.1 uchod. Nododd y Swyddog dylid rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau ar unwaith, unai trwy gysylltu â llinell 101, Ar-lein neu drwy e-bostio.

**3** **Cyng. Margaret Thomas :** Adroddodd Cyng. Thomas am ddigwyddiad diweddar o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Llawr y Dref, a chanmolodd yr Heddlu am eu hymateb cyflym gan nodi fod tri Swyddog wedi mynychu'r safle ar unwaith.

***PARHAD 25/250***

*Diolchodd y Cadeirydd i PC Thomas am fynychu heno ac fe adawodd y Cyfarfod*

**25/251** **Cyflwyniad - Cyfoeth Naturiol Cymru :** Cyflwyniad yn ymwneud a Llifogydd, Swyddog Gweinyddol yn adrodd na wnaed unrhyw gyswllt gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac felly gohiriwyd yr eitem. Cyng. Non Parry yn datgan fod ganddi fanylion cyswllt a bydd yn ceisio gwneud cysylltiad â nhw i ail drefnu. Cyng. Parry yn adrodd ei bod yn monitro'r llanw yn rheolaidd a bydd yn mynychu Digwyddiad i Wirfoddolwyr Llifogydd Cymunedol 2026 yn Llandudno, 12fed o Fawrth 2026 (Wedi'i drefnu gan Gyfoeth Naturiol Cymru). Dim trafodaeth bellach.

**25/252** **I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 09.02.2026 :**
Cyng. Geraint Bebb yn Cynnig a Cyng. Margaret Thomas yn Eilio i dderbyn y Cofnodion. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

**25/253** **I Ystyried Materion yn Codi o Gofnodion 09.02.2026 :**
1 Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion uchod. Swyddog Gweinyddol yn cadarnhau fod dim cyfathrebu trwy'r Swyddfa. Ni chodwyd unrhyw fater yn ystod y Cyfarfod o dan yr Eitem uchod.

**25/254** **Cynllunio :**
1 **I Dderbyn Cofnodion Pwyllgor Cynllunio 09.02.2026 :**
Cyng. Terry Jones yn Cynnig a Cyng. Margaret Thomas yn Eilio i dderbyn y Cofnodion uchod fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion uchod.

**25/255** **I Dderbyn Argymhellion Pwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae 16.02.2026 :**
**Y Fynwent, Lon Newydd : Cyng. Margaret Thomas yn arwain ar yr Eitem yma 25/242 :**
1 **Cwmni CDS :** Disgwyl ymateb yn ôl gan y Cwmni yn dilyn anfon dogfennau priodol;
2 **Giât y Fynwent :** Aelodau yn cytuno i archebu giât newydd addurnedig. Cytunwyd i dderbyn tri amcan bris cyn symud ymlaen. **PENDERFYNWYD** edrych i mewn i gostau giât newydd.
**Meysydd Chwarae : Cyng. Margaret Thomas yn arwain ar yr Eitem yma 25/243 :**
1 **Plas Tudur : Offer Chwarae Newydd "Roundabout";**
**MUGA :** Cais Cynllunio yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir yn Mis Ebrill - cyllideb grant mewn lle ar gyfer y Prosiect;
3 **Rhosmeirch : Offer Chwarae Newydd "Roundabout";**
4 **Nant y Pandy: Offer Chwarae Newydd "2 Springers" a Siglen Fasged;**
Cyng. Thomas yn datgan fod cyllideb wedi'u glustnodi ar gyfer offer Chwarae Newydd o fewn tanwariant llynedd a chyllideb y flwyddyn ariannol 2025-2026 (£19,290.00) gyda phosibilrwydd hefyd o gyllideb grant trwy'r Cyngor Sir tuag at yr offer chwarae newydd. Swyddog Gweinyddol yn cadarnhau fod amcan bris wedi'i dderbyn gan Gwmni Proludic o fewn y gyllideb. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** derbyn yr uchod a symud ymlaen i archebu'r offer chwarae newydd fel y nodwyd o dan Eitem 25/255.4. Dim trafodaeth bellach
**Grantiau :** Cyng. Nicola Roberts yn dwyn sylw at Gronfa Gwella, lle mae'r arian yn caniatáu i denantiaid a phreswylwyr wneud cais am grant hyd at £5,000 ar gyfer prosiectau amgylcheddol i wneud stadau'r Cyngor yn fwy diogel a thaclus. Cyng. Roberts yn adrodd fod y grant yma yn rhan o'r Prosiect MUGA yn Plas Tudur i archebu meinciau a Photiau blodau. Yn dilyn o'r uchod, awgrymodd Cyng. Roberts edrych ar annog Mudiadau i gydweithio ar gynllun cadarn a phawb symud ymlaen efo'i gilydd er fudd y dref a'r gymuned.
**Cloc y Dref :** Cadeirydd yn dwyn sylw at sefyllfa'r cloc a bod gwaith angen ei wneud i'r drws a hefyd i'r goleuadau ar wyneb y Cloc. Cyng. Nicola Roberts yn adrodd fod cyllideb cynnal a chadw ar gael trwy'r "Charitable Trust" ar gyfer y math yma o waith. Dim trafodaeth bellach.
**Ystafelloedd Newid : Eitem 25/244 :** Cyng. Thomas yn adrodd fod y gwaith cynnal a chadw i'r Adeilad wedi'i orffen heblaw am lanhau'r tu fewn. Disgwyl amcan bris am y gwaith yma.

***PARHAU 25/255***

Cyng. Thomas yn datgan fod y gwaith wedi'i wneud gan obeithio defnyddio'r adeilad yn amlbwrpas er fudd i'r Gymuned. Cyng. Bebb yn awgrymu ystyried ailsefydlu'r Les gyda Chlwb Pêl Droed yr Ieuenctid ac edrych ar wneud gwelliannau i'r dyfodol.
Yn dilyn o'r Eitemau uchod, Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. Non W. Parry yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion.

**25/256 I Dderbyn Unrhyw Gyfathrebon Gan y Maer :**

**1** Cadeirydd yn adrodd fod dim byd i'w gyflwyno ar hyn o bryd a disgwylir cyflwyno adroddiad cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**25/257 Materion yn Codi Gan Aelodau :**

**1 Cyng. Non W. Parry : Stryd y Cae :** Cais wedi'i dderbyn gan berchennog siop yn gofyn am ganiatâd i osod plac ar fainc yn Stryd y Cae, er cof am ei Rhieni. Cyng. Alwyn Parry yn adrodd fod Prosiect Gwelliannau ar y gweill yn Stryd y Cae sydd yn cynnwys gosod mainc newydd. Cyng. Alwyn Parry yn datgan bydd cyfrifoldeb am y fainc yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor Tref unwaith mae'r gwaith wedi'i gwblhau. Yn dilyn trafodaeth, dim gwrthwynebiad gan yr Aelodau i'r perchennog siop osod plac ar y fainc a phawb yn hapus i gytuno. Cyng. Non Parry yn diolch i'r Aelodau. **PENDERFYNWYD** caniatáu y cais uchod.

**2 Gronfa Amgylcheddol a Gwella Cymunedau :** Cyng. Parry yn arwain ar e-bost wedi'i dderbyn gan Cyngor Sir Ynys Môn yn datgan fod arian blynyddol hyd at £500 ar gael i wneud gwelliannau i stadau Cyngor. Mae hyn yn cynnwys gosod meinciau ar safleoedd Meysydd Chwarae a chytunwyd i gynnwys Eitem ar Raglen nesaf Pwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae i drafod ymhellach. **PENDERFYNWYD** cynnwys Eitem ar Raglen nesaf Pwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae i drafod gosod Meinciau o fewn cyllideb y Gronfa.

**25/258 Adroddiad y Clerc :**
**Cadeirydd yn adrodd, oherwydd sefyllfa'r Clerc, nid oes Adroddiad i'w chyflwyno :**

**1 Wefan - Cwmni Delwedd :** Swyddog Gweinyddol yn adrodd bydd Cwmni Delwedd yn tynnu lluniau'r Cynghorwyr ar gyfer y Wefan, o flaen y Cyfarfod Llawn nesaf, Nos Lun 13eg o Ebrill 2026 am 6.00y.h. **Derbyn**

**25/259 Adroddiadau Pwyllgorau Allanol :**

**1 Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned - Cyfarfod 04.02.2026 - Cofnodion yn Atodol -** Er gwybodaeth / Cyflwyniad wedi'i anfon trwy e-bost - Er gwybodaeth

**2 Digwyddiad ar y Cyd Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru – 19.03.2026 –** Cyng. Non Roberts-Smith yn mynychu;

**3 Gwahoddiad i Ddigwyddiad i Wirfoddolwyr Llifogydd Cymunedol 2026 – 12.02.2026 –** Cyng. Non W. Parry yn mynychu;

**4 Grŵp Llandrillo Menai - Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol - 26.02.2026**

**5 Cyfarfod Adfywio Llangefni 04.03.2026 – Cofnodion 02.12.2025 yn atodol –** Er gwybodaeth.

**6 Cyfarfod Hwb Ieuenctid 17.03.2026 :** 1.30y.h. – 3.30 y.h.

**25/260 Cyllid :**

**1 I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Chwefror 2026 :**
Swyddog Gweinyddol yn cadarnhau na chodwyd unrhyw gwestiynau trwy'r Swyddfa ynglŷn â'r uchod, o flaen y Cyfarfod. Dim trafodaeth.

***PARHAD 25/260***

Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. Geraint Bebb yn Eilio i dderbyn y Fantolen Ariannol. **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolen Ariannol Mis Chwefror 2026.

2 **Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru – Datganiad o Daliadau – Cynghorau Cymuned a Thref.** Cyng. Terry Jones yn Cynnig a Cyng. Geraint Bebb yn Eilio fod y Cyngor Tref yn cydnabod derbyn y ddogfen uchod. Dim trafodaeth.

**25/261 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn :**
**Cyng. Nicola Roberts yn adrodd ar y canlynol :**

- Cymeradwyo Cyllideb Treth Cyngor 5.1% fydd yn cynnal gwasanaethau hanfodol;
- Buddsoddi mewn gwelliannau i Adran Hamdden Plas Arthur : Gwerthiant y Cwrs Golff i uwchraddio Plas Arthur;
- Gweithio ar Gyllideb blwyddyn nesaf;
- Teithio Llesol - Gwybodaeth ar Wefan Cyngor Sir Ynys Môn;
- Ynys Môn yn arwain gyda chymaint o lwyddiant ar gartrefi diogel, yn cael eu cynnal a'u cadw yn dda;
- Grantiau yn seiliedig ar y boblogaeth; Adran Priffyrdd yn gweithio yn galed ar amrywiol brosiectau seilwaith;
- Cynllun Siapio Lle - "Place Shaping Plan"

*Cadeirydd yn diolch i Cyng. Roberts am ei mewnbwn*

*7.25 Cyng. J. Huw Owen yn ymddiheuro ei fod yn gadael y Cyfarfod*

**25/262 Gohebiaeth a Materion Newydd :**

1 **Gŵyl Cerdded Môn - E-bost 19.02.2026 :** Aelodau i ateb yn uniongyrchol i ail-gychwyn y fenter yma. Cyfarfod 11.03.2026. Dim trafodaeth.

2 **Cyfraniadau 2025-2026 : Negeseuon o ddiolch wedi'u derbyn gan :**

- *Eisteddfod yr Urdd 2026*
- *Clwb Rygbi Llangefni*
- *Dawns i Bawb*
- *Pwyllgor Gwlad y Medra - Sioe Frenhinol 2027*
- *Theatr Bara Caws*
- *Kids Cancer Charity*
- *Stiwdio Môn FM*

3 **Clwb Pêl Droed Cefni :** E-bost 02.03.2026 wedi'i rannu gyda'r Aelodau. Yn dilyn trafodaeth, nodwyd fod y Clwb Pêl Droed wedi cael defnyddio'r adeilad fel arwydd o ewyllys da. Eglurwyd fod y Cyngor Tref yn cyfathrebu yn uniongyrchol gyda Chlwb Pêl Droed Ieuenctid ynglŷn â materion yn ymwneud a rheoli a gweithredu'r cyfleusterau. Cyng. Bebb, fel Cadeirydd Clwb Pêl Droed Ieuenctid yn nodi bod angen adolygu'r Les rhwng y Clwb Ieuenctid a'r Cyngor Tref, ar gyfer ei hadnewyddu, nododd y Cadeirydd dylid gwneud telerau ac amodau'r Les yn glir. Aelodau yn dwyn sylw fod grantiau ar gael ar gyfer cyfleusterau merched o fewn grantiau Pêl Droed. Dim trafodaeth bellach

**25/263 Gohebiaeth : Er Gwybodaeth :**
**Materion wedi'u hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Chwefror 2026 :**

1 **Un Llais Cymru - Derbyn**
2 **Materion Eraill - Derbyn**

**25/264 I Ystyried Unrhyw Fater Brys gan y Maer : Dim**

**25/265 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf : Nos Lun 13eg o Ebrill 2026 :**

***CYNG. J. EGRYN LEWIS - CADEIRYDD***